Page

# Hwb o £1.5 miliwn i Golofn Ynys Môn ac Ynys Echni yng Nghaerdydd

17/06/2021




Wales

Mae cofeb i arwr rhyfel Napoleon a hafan natur sy'n gartref i gyn-ysbyty colera yn cael hwb o £1.5 miliwn gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru.

> "Mae'n bleser cyhoeddi bod Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru yn ariannu'r Anglesey Column Trust a Chyngor Caerdydd i adfer a chadw rai o'r enghreifftiau gorau oll o dreftadaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol." *Andrew White,*

*Cyfarwyddwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru.*



Bwthyn y Marcwis

# T?r Marcwis

Mae'r Anglesey Column Trust yn Llanfairpwllgwyngyll yn derbyn £872,800 i atgyweirio ac adnewyddu t?r a bwthyn Marcwis cyntaf Ynys Môn.

Wedi'i godi ym 1817, mae T?r Marcwis yn Rhestredig Gradd II * ac yn dathlu dewrder Henry Paget, Marcwis 1af Ynys Môn, a gollodd ei goes ym mrwydr Waterloo. Roedd yr heneb 29-metr o uchder yn atyniad poblogaidd iawn i dwristiaid a phobl leol am genedlaethau, ond fe gaeodd yn 2014 am resymau diogelwch.

Nawr, diolch i'r cyllid, bydd yr Anglesey Column Trust yn gallu bwrw ymlaen â'i chynlluniau i adfer ac ailagor y golofn ac adeiladu platfform gwylio canopi coed ysblennydd, cwbl hygyrch. Bydd canolfan ymwelwyr newydd, siop a chaffi yn creu cyfleoedd swyddi a gwirfoddoli yn yr ardal leol.



Hen ysbyty colera ynys Echni

## Ynys Echni

Bydd Cyngor Caerdydd yn adfer adeiladau allweddol ac yn gwella cynefin ar gyfer gwylanod nythu a planhigion morwrol Ynys Echni diolch i ddyfarniad o £645,200.

Bydd prosiect 'Ynys Echni: Taith Trwy Amser' Cyngor Caerdydd yn ail-gysylltu prifddinas Cymru â'i ynys anghofiedig trwy adael i ymwelwyr fynd am dro trwy hanes Ynys Echni. Bydd teithiau 'Taith Trwy Amser' yn archwilio hanes milwrol ac arforol yr ynys, ei threftadaeth naturiol ac aber Hafren a bydd taith hunan-dywysedig o amgylch yr ynys.

Bydd hen ysbyty colera, adeiladau golchi dillad a'r orsaf corn niwl yn cael eu gwneud yn sefydlog a diogel ac yn hygyrch i'r cyhoedd. Trwy glirio peth o'r brysgwydd o Ynys Echni, caiff bywyd gwyllt a phlanhigion brodorol yr ynys - gan gynnwys ei boblogaeth gwylanod a'i laswelltiroedd llawn rhywogaethau, gyfle i ffynnu.

Ac ar y tir mawr, bydd gwaith celf ar Forglawdd Bae Caerdydd yn nodi darllediad diwifr cyntaf Marconi dros dd?r a bydd paneli dehongli am yr ynys ym Mhenarth, Weston-Super-Mare a Brean Down.

## Rhai o enghreifftiau gorau oll o dreftadaeth Cymru

Dywedodd Andrew White, Cyfarwyddwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru: "Mae'n bleser cyhoeddi bod Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru yn ariannu'r Anglesey Column Trust a Chyngor Caerdydd i adfer a chadw rai o'r enghreifftiau gorau oll o dreftadaeth Cymru ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

“Dros y 12 mis diwethaf mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi cefnogi’r sector treftadaeth yng Nghymru gyda chyllid o dros £18 miliwn.”

## Cyllid ar gyfer treftdaeth

Rydym yn darparu cyllid ar gyfer treftadaeth o bob lliw a llun a  maint, gyda grantiau o £3,000 hyd at filiynau o bunnoedd. Porwch drwy ein rhaglenni cyllido i weld os oes un addas i chi.



## rdeb hefyd mewn ...



**ghoedwigoedd hynafol Caerdydd**

Gwirfoddolwyr Bywyd y Môr



**t bywyd gwyllt**

## Ystod lawn o arian y Loteri Genedlaethol yn ailddechrau gyda blaenoriaethau wedi'u




Un o drennau Trafnidiaeth Cymru

## Hwb i fioamrywiaeth mewn gorsafoedd trên yng Nghymru